



## FFURFLEN GAIS I OSOD COFEB

MYNWENT \_\_\_\_\_ADRAN \_\_\_\_\_ Rhif \_\_\_\_\_

ENW LLAWN PERCHENNOG Y BEDD/YMGEISYDD: \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD: \_\_\_\_\_

Yr wyf i, perchennog cyfreithiol yr HAWL UNIGRYW i GLADDU yn y bedd uchod, a chan wybod am y rheoliadau a'r cyfyngiadau sydd mewn grym, rhoddaf ganiatâd i gwblhau'r gwaith a ddisgrifir uchod. Byddaf trwy hyn yn indennio'r Cyngor o ran unrhyw hawliadau a wneir ar unrhyw adeg mewn cysylltiad â, neu sy'n deillio o'r gwaith a gwblheir.

Yr wyf yn deall mai fy nghyfrifoldeb i yw cynnal a chadw'r gofeb, a'i diogelwch. Cadarnhaf na fydd unrhyw eitemau na chaniateir yn cael eu gosod ar y bedd.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_  
Llofnod perchennog y bedd/Ymgeisydd

ENW'R CWMNI \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD \_\_\_\_\_

COFEB NEWYDD  ARYSGRIF YCHWANEGOL  AIL-OSOD

Cadarnhaf y bydd y gwaith ar y gofeb yn cael ei gwblhau yn unol â BS8415 neu unrhyw Safon Diwydiant neu unrhyw God Ymarfer sydd yn cydymffurfio â'r safonau uchod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw Bolisiâu sydd gan y Cyngor y bydd yn sicrhau bod Tystysgrif Cydymffurfio yn cael ei gyflwyno i berchennog y bedd. Derbyniaf mai fi sydd yn gyfrifol am fodloni'r safonau uchod a fy mod yn atebol am unrhyw safonau fydd yn cael eu torri. Cadarnhaf fy mod wedi cofrestru gyda BRAMM.

Llofnod ar ran y cwmni \_\_\_\_\_

<u>Arysgrif</u>	<u>Braslun</u> (Ychwanegwch ddimensiynau ychwanegol ar gyfer cyrbau)
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	
.....	

CARREG FEDD: Lled: \_\_\_\_\_ Trwch: \_\_\_\_\_ Uchder: \_\_\_\_\_

GWAELOD Y GARREG: Lled: \_\_\_\_\_ Trwch: \_\_\_\_\_ Dyfnder: \_\_\_\_\_

Y SYLFAEN: Lled: \_\_\_\_\_ Trwch: \_\_\_\_\_ Dyfnder: \_\_\_\_\_

LLECH GYNNAL Lled: \_\_\_\_\_ Trwch: \_\_\_\_\_ Dyfnder: \_\_\_\_\_

Swyddog Dyroddi: \_\_\_\_\_ Dyddiad cyhoeddi: \_\_\_\_\_ Dyddiad Gosod Agosaf: \_\_\_\_\_



## GWYBODAETH YNGLŶN Â CHOFEBION

### Cyflwyniad

Mae pwysigrwydd cofeb fel modd o goffau bywyd anwylyd, gweithredu fel ffocws i'r galar mewn blynyddoedd i ddod, fel cofnod hanesyddol, yn cael ei gydnabod yn eang.

Hoffem felly, ganiatáu i deulu'r ymadawedig gael cymaint o ddewis â phosibl o ran trefnu cofebion. Am y rheswm hwn, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r holl wahanol fathau sydd ar gael cyn i chi fynd ati i ddewis un sydd yn addas i chi.

Bydd y saer maen a benodir ar eich cyfer yn eich cyngori ynglŷn â'r dewis o gofebion sydd ar gael ar gyfer yr ardal o fewn y fynwent y prynwyd y bedd, oherwydd bydd angen i'r gofeb gydymffurfio â'r dimensiynau a ganiateir gan y Cyngor.

Mae rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, yn galw am gyfrifoldebau, a byddwch yn eu derbyn pan fyddwch yn gosod cofeb yn y fynwent. Rwyf wedi rhestru rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ynghyd â'r cyfrifoldebau y bydd angen i chi llynu atynt.

Rhaid bod y cofebion a'r ffolau wedi eu gwneud o gerrig chwarel naturiol yn unig.

Mae'n ofynnol i'r saer maen a benodwyd ar eich cyfer ddarparu gwarant crefft am gyfnod o, o leiaf 15 mlynedd.

Bydd y saer maen a benodwyd ar eich cyfer yn cyflwyno'r ffurflen gais atodedig ar eich rhan. Byddwn yn gwirio'r ffurflen gais cyn cyflwyno'r drwydded i'w gosod. Byddwn hefyd yn sicrhau mai:-

Seiri Meini sydd wedi cofrestru gyda BRAMM (British Register of Accredited Memorial Masons) yn unig a ganiateir i weithio yn Nhorfaen.

Na fydd cofebion yn cael eu gosod cyn y dyddiad gosod cynharaf er mwyn sicrhau bod y ddaear wedi setlo er mwyn creu cymaint o sefydlogrwydd â phosibl.

Cyfrifoldeb y saer maen a benodwyd ar eich cyfer yw sicrhau bod y gofeb yn cael ei roi ar y bedd gywir a bod y safon yn dderbyniol a'r ddaear yn cael ei adfer mewn ffordd foddhaol.

Byddwn yn arolygu ac yn profi'r gofeb ar ôl 8 wythnos i sicrhau ei bod wedi cael ei gosod yn ôl y safon sydd ei hangen.

Byddwn yn cyfathrebu â'r saer maen os bydd unrhyw broblemau.

Er mwyn gwrthbwyso cost y gwasanaeth hwn, codir tâl coffa sydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Cysylltwch â swyddfa'r fynwent os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

### Cyfrifoldeb am y Gofeb

Cyfrifoldeb perchennog y bedd, a pherchennog y bedd yn unig yw'r gofeb ac ni ddaw fyth yn eiddo i'r Cyngor. Felly, nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fandaliaeth a achosir i'r gofeb, ac nid yw'n atebol amdani.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y gofeb yn cael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr diogel fel nad yw'n achosi perygl i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â'r fynwent, neu aelodau staff y fynwent. Os, yn anffodus, y ceir bod y gofeb yn anniogel ar unrhyw adeg, cedwir yr hawl gan y Cyngor i'w wneud yn ddiogel ar unwaith.

Os bydd angen cynnal a chadw neu lanhau eich cofeb awgrymwch eich bod yn trafod hyn gyda saer maen.

Rhaid pwysleisio nad bwriad yr eitemau hyn yw peri gofid i chi mewn unrhyw ffordd, ond mae eu hangen er lles pawb sy'n ymweld â mynwent.

Efallai y byddwch am ystyried trefnu yswiriant ar gyfer eich cofeb. Dylai'r saer maen a benodwyd ar eich cyfer fedru darparu cyngor ynglŷn â hyn.

### Cynnal a Chadw'r Fynwent

Nod y Cyngor yw cynnal a chadw'r fynwent i'r safon uchaf posibl o fewn y cyllid sydd ar gael. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch y swyddogaethau hyn, gallwch eu dwyn at sylw swyddfa'r fynwent yn ystod oriau arferol y swyddfa.

Rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi nad oes modd osgoi torri porfa heb iddo chwythu ar gofebion o bryd i'w gilydd. Gwneir pob ymdrech i leihau'r broblem ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra y gallai hyn ei achosi.

Rydym yn sylweddoli bod yr hyn sydd yn bodloni rhai yn medru digio pobl eraill felly mewn ymdrech i gadw urddas a golwg y mynwentydd, mae yna reoliadau penodol yn eu lle, ac argymhellir eich bod yn ymglyfarwyddo â hwy.

Gallwch weld rheoliadau'r fynwent ar wefan mynwentydd y Cyngor neu gael copi caled gan swyddfa'r fynwent.

### Plethdorchau Nadolig

Os ydych am osod plethdorch Nadolig neu deyrnged debyg ar fedd anwylyd, mae croeso i chi wneud hynny. Rwy'n siŵr eich bod yn deall eu bod yn medru achosi niwed i'r borfa, pydru ac edrych yn salw os ydynt yn cael eu gadael yno am amser hir. Am y rhesymau hyn rydym yn symud yr holl blethdorchau yn syth ar ôl 31 Ionawr.

### Newid Cyfeiriad

A fydddech cystal â dweud wrth swyddfa'r fynwent os byddwch yn newid eich cyfeiriad er mwyn i ni ddiweddarw cofnodion y fynwent. Mae hyn yn bwysig ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol.

### Swyddfa'r Fynwent

Ty Blaen Torfaen · Ffordd Panteg  
Y Dafarn Newydd, Torfaen · NP4 0LS  
Ffôn: 01495 766150 · Ffacs: 01633 647328